# NEWYDDLEN CYLLID

## Cyfleoedd Grant Posibl

**Croeso i Newyddlen Cyllid Mai 2026**

# Yn cau'n fuan

## Cronfa Cymru Actif

Mae Cronfa Cymru Actif ar agor ac yn derbyn Mynegiannau o Ddiddordeb hyd at y 29ain Mai 2026.

**Pwy all wneud cais?**
Gall grwpiau cymunedol a chwaraeon wneud cais am hyd at £50,000 o gyllid y Loteri Genedlaethol ar gyfer offer a chyrsiau hyfforddiant.

Mwy o Wybodaeth Yma

## Cronfa Cymunedau Cwtsh Comic Relief

Mae Cymunedau Cwtsh Comic Relief yn cynnig cwtshus bach o gefnogaeth i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru; cynllun grant newydd i helpu mudiadau lleol i ddarparu cefnogaeth gynnes, ddiogel, a gofalgar i'r bobl sydd ei hangen fwyaf.

Mae grantiau rhwng £15,000 a £35,000 ar gael i fudiadau sy'n darparu gwasanaethau uniongyrchol a chefnogaeth ymarferol yn eu cymunedau.

Nid yw cynghorau cymuned a thref yn gymwys i gynnig yn uniongyrchol am yr arian Comic Relief hwn, ond rydym yn eich annog i rannu'r cyfle hwn yn eang gyda grwpiau lleol ac ystyried partneru gyda mudiadau cymwys yn eich ardal i'w helpu i gael gafael ar yr arian.

Dysgu Mwy am y Grant yma

# Cyllid

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Mae hon yn rhaglen dreigl o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Er nad yw cynghorau cymuned a thref yn gymwys i gynnig, mae disgwyl i ymgeisyddion weithio gyda mudiadau eraill o'r sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector. Felly, er na all cyngor arwain cais mae'n gwbl dderbyniol iddo weithredu'n bartner sector cyhoeddus ar gais a chwarae rôl gefnogol werthfawr er mwyn gwella cyfleusterau yn eu hardal.

Am Ragor o Wybodaeth

## Arian i Bawb

Ymgeisiwch yma am grantiau hyd at £20,000

# Cyfleoedd Rhanbarthol

CYNGOR GWYNEDD

## Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd

Mae'r gronfa wedi'i sefydlu er mwyn galluogi cymunedau i wella edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi ar draws y sir trwy welliannau bach, effaith uchel.

Nod y gronfa yw ymateb yn uniongyrchol i anghenion a blaenoriaethau trigolion ar draws Gwynedd, gan gyfarch tair thema benodol:

- gwelliannau i ofodau cymunedol,
- gwelliannau mannau cyhoeddus,
- adfywio canol trefi a'r stryd fawr.

Bydd y gronfa yn cau i geisiadau ar 15 Mehefin, 2026.

Mwy o Wybodaeth Yma

---

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Gwaddol Dr Dewi Davies

Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies yn rhoi cymorth i'r gymunedau yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion:

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac ynysu gan gynnwys tlodi tanwydd a phroblemau gwledig.
- Prosiectau sy'n gweithio gyda'r genhedlaeth hŷn i leihau unigrwydd.
- Grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo a dysgu'r Iaith Gymraeg, Diwylliant Cymreig a Threftadaeth Gymreig.
- Magu hyder ac ehangu gorwelion unigolion nad oes ganddynt lawer o adnoddau.

Bydd yn ailagor ym dydd Llun 11 mis Mai 2026.

Mwy o Wybodaeth Yma

---

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Sir Gaerfyrddin

Mae Cronfa Sir Gaerfyrddin yn rhoi cymorth i'r themâu canlynol:

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac ynysu gan gynnwys tlodi tanwydd a phroblemau gwledig
- Prosiectau sy'n gweithio gyda'r genhedlaeth hŷn i leihau unigrwydd
- Grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi'r diwydiant ffermio
- Prosiectau sy'n helpu pobl sydd ag iechyd meddwl gwael i fagu hyder a gwydnwch er mwyn ehangu eu gorwelion
- Prosectau a fydd yn gweithio i wella a chodi dyheadau plant a phobl ifanc difreintiedig

Gall sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £500 a £2000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

Mwy o Wybodaeth Yma

---

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Cronfa Waddol Gymunedol Sir Ddinbych

# Cronfa Waddol Cynnal

# Cronfa Waddol Gymunedol Casnewydd

# Cronfa Gwaddol Cymuned Powys

Mae Hwb Grantiau newydd yn fyw!

Gall grwpiau a mudiadau mewn sawl ardal awdurdod lleol gynnig am arian i gefnogi eu prosiectau cymunedol. Edrychwch i weld beth sydd ar gael yn eich ardal chi.

Mwy o Wybodaeth Yma

---

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

# Grantiau Cist Gymunedol Sir y Fflint 26/27

Mae'r gronfa yn darparu grantiau ar gyfer gefnogi gweithgareddau cymunedol yn Sir Y Fflint, gyda blaenoriaeth ar gyfer sefydliadau lleol llai. Yn ddiweddar, mae grantiau wedi cael eu dyfarnu ar gyfer offer garddio, offer chwaraeon, atgyweirio adeiladau, diffibrilwyr a marchnata ar gyfer gweithgareddau newydd.

Mae ceisiadau yn cael ei dderbyn yn bellach gan sefydliadau sydd o fudd i bobl o Sir y Fflint. Mae grantiau ar gael hyd at uchafswm o £1,000, ond fyddant yn ariannu 75% o gyfanswm y gost yn unig, felly mae cyllid cyfatebol yn hanfodol. Sylwch, gellir dyrannu'r swm mwyaf o £1,000 dim ond unwaith mewn cyfnod o 2 flynedd.

Mwy o Wybodaeth Yma

---

# Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC)

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweinyddu nifer o gronfeydd y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn yr ardaloedd perthnasol yn gymwys i gynnig amdanynt: Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog Cronfa Gwynt y Môr Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth North Hoyle

Mwy o Wybodaeth Yma

# Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i’ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

Cyllido Cymru

Sefydliad Cymunedol yng Nghymru


**Un Llais Cymru**

24c Stryd y Coleg

Rhydaman

SA18 3AF

Un Llais Cymru


**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar Gwneud ceisiadau grant effeithiol**


Dad-Tanysgrifio

SENT BY mailerlite